

PENNANT, THOMAS (1726 - 1798), naturiaethwr, hynafiaethydd, teithiwr

Enw: Thomas Pennant
Dyddiad geni: 1726
Dyddiad marw: 1798
Priod: Anne Pennant (née Mostyn)
Priod: Elizabeth Pennant (née Falconer)
Plentyn: Sarah Pennant
Plentyn: Arabella Pennant
Plentyn: Thomas Pennant
Plentyn: David Pennant
Rhiant: Arabella Pennant (née Mytton)
Rhiant: David Pennant
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: naturiaethwr, hynafiaethydd, teithiwr
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Natur ac Amaethyddiaeth; Teithio
Awdur: Ellis Davies

Ganwyd 14 Mehefin 1726, yn y Downing, sir y Fflint, mab David Pennant ac Arabella (gynt Mytton). Daethai ei dad i feddiant o'r Downing yn 1724 ar farwolaeth Thomas Pennant (yr olaf i oroesi o gangen iau o'r teulu), yr hwn a'i cymynroddodd iddo. Cartref cyntefig y Pennantiaid oedd Bychton yn yr un plwyf (Whitford). Y cyntaf i ymsefydlu yn y Downing oedd John Pennant, gor-hendaidd y Thomas uchod, a ymbriododd yn 1626 â'r etifeddes ac a ychwanegodd at y ty neu ei ailadeiladu. Aeth y Downing ar dán yn 1922 ac ers ym 1922 ac ers ym 1922.

Ceir y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd hysbys am Thomas Pennant yn ei *Literary Life* a gyhoeddwyd yn 1793. Dywed ddarfod iddo ddechrau meithrin chwaeth at adaryddiaeth, ac yn wir at naturiaethau yn gyffredin, ac ef yn 12 oed, pan gyflwynwyd iddo lyfr ar adar o waith Francis Willoughby gan ei gâr, **John Salusbury**, Bach-y-graig, Tredegar, tad **Mrs. Piozzi**. Derbyniodd ei addysg foreg mewn ysgol yn Wrecsam (gweler *Tours*, i, 379). Wedi hyfforddiant pellach yn Llundain, ymaelododd pan yn 18 oed yng Ngholeg y Frenhines, Rhydychen. Er aros yno am rai blynnyddoedd ni chymroedd ei radd. Ac efe eto yn y brifysgol ymwellod (yn 1746 neu 1747) â Chernyw, lle y cyfarfu â'r enwog Ddr. W. Borlase, rheithor Ludgvan, yr hwn a enynnodd ynddo gryn hoffter at ddaear. Yn y blynnyddoedd dilynol teithiodd yn helaeth, gan ymweled â'r Iwerddon, Ynys Manaw, cyfarfod Ewrop, yr Alban, yr Hebrides, a gwahanol rannau o Loegr a Chymru. Ymae'r cyfrolau o hanes ei deithiau yn yr Alban, i Llundain, ac yn enwedig yng Noglledd Cymru, gyda'i gynhyrchion llenyddol gorau. Ymddangosodd cyfrol gyntaf ei *Tours in Wales* yn 1778, a'r ail (y rhan gyntaf dan y teitl *A Journey in Snowdonia*) yn 1781. Cyhoeddwyd argraffiad mewn tair cyfrol yn 1883 dan olygiaeth **Syr John Rhys**. Am hanes Pennant a'i daith ar y Cyfandir, ni welodd olau dydd hyd 1948. Cyhoeddwyd y llawysgrif, sydd ym meddiant y Llyfrgell Genedlaethol, gan Bernard Quaritch, Llundain, dros y Ray Society (*Tour of the Continent*). Ymddangosodd ei brif waith ar fildraeth (*British Zoology*) rhwng 1761 a 1777, mewn pedair cyfrol (arg. newydd 1812). Ysgrifennodd hefyd ar fildraeth India a'r Arctic Circle. Ei anturiaeth lenyddol fwyaf uchelgeisiol oedd *Outlines of the Globe* mewn 22 cyfrol (MS.). Pedair yn unig o'r rhain a gyhoeddwyd - dwy ganddo ef ei hun, a dwy gan ei fab David Pennant. Am y gweiddill, arhosennant ym meddiant etifeddon staid y Downing, teulu Fielding, tan 1938, pan werthwyd hwy, ynghyd â llawer o lawysgrifau eraill a llyfrau a berthynai i Thomas Pennant a'i fab, gan y Meistri Christie, Llundain, trwy gyfarwyddyd ysgutorion y diweddar isiarll Fielding, arglywyd Denbigh, am £300. Y prynwyr oedd y Brodyr Maggs, Ilyfrwerthwyr, Llundain. Y mae 22 gyfrol yr *Outlines* yn awr yn y National Maritime Museum, Greenwich. Ddwyl flynedd cyn ei farw gorffenodd Pennant gyfrol ar ei blwyf genedigol a Threffynnon, lle y trigai rhai o'r teulu (*Whiteford and Holywell*, 1796). Yn ystod ei fywyd derbyniodd lawer o anrhydeddau a nodau o fri, o wledydd tramor yr ogystal ag Brydain. Yr anrhydedd a werthfawrogai fwyaf oedd ei ethol yn 1757 yn aelod o Gymdeithas Frenhinol Upsala. Cyn hynny, yn 1754, etholasid ef yn F.S.A., ond ymneilltuodd yn 1760. Daeth iddo anrhydeddau o Norwy, Sweden, ac America, ac yn 1767 gwnaea ef yn F.R.S., ac yn LL.D. gan Brifysgol Rhydychen. Cyflwynodd Sgotland iddo amryw anrhydeddau yn cynnwys dinasfraint Edinburgh.

Ymhlied gohebwyr tramor Pennant yr oedd amryw bersonau o nod, megis Linnaeus, Buffon, Dr. Pallas (yr Hâg), a Gronovius (Leyden). Ymohebait ag ef y naturiaethwr Seisnig Gilbert White yntau, awdur *The Natural History and Antiquities of Selborne*. Ymyst y Cymry y cyfathrachodd â hwyt ac y bu yn eu dyled yr oedd **Morysiad Môn; Hugh Davies**, awdur Welsh Botany; **John Lloyd**, rheithor Caerwys, a fu yn gydymaith iddo ar ei holl deithiau yng Nghymru ('I'w fawr fedr yn iaith a hynafiaethau ein gwlad yr wyf yn dra dyledus'); **Moses Griffith**, brodor o Fyncroes, Lleyn, ei was ffyddlon a'i ddarllunydd hunan-addysgedig, a deithiodd gydag ef bron ym mhobman ac a gyflenwodd ddarlluniau i'w weithiau.

Bu Pennant yn briod ddwywaith. Ei wraig gyntaf oedd Elizabeth, merch James Falconer, Caer, i'r hon y ganed dau blentyn, sef David, ei etifedd, ac Arabella; ei ail wraig oedd Ann, merch **Syr Thomas Mostyn**, a bu iddi ferch a mab, sef Sarah a Thomas. Dechreuodd iechyd Pennant ballu yn 1793, a gorffenodd ei yrfa 16 Rhagfyr 1798, yn 72 oed. Claddwyd ef 'yn agos i'r allor' yn eglwys Whitford, lle mae cofgolofn iddo o waith Westmacott yr ail.

Awdur

Y Canon Ellis Davies, (1872 - 1962)

Ffynonellau

Thomas Pennant, *The literary life of the late Thomas Pennant, Esq. By himself*(Llundain 1793)

Thomas Pennant, *The history of the parishes of Whiteford and Holywell*(London 1796)

Outlines of the Globe (Llundain 1798-1800), iii, 'Advertisement'

A Tour (Tours) in [North] Wales, 1883 (bywgraffiad gan W. Trevor Parkins)

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen*(1852)

Charles W. J. Withers, 'Pennant, Thomas', *Oxford Dictionary of National Biography*

Yr Haul, 1948, 1949

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 214-5

Darllen Pellach

LIGC: Thomas Pennant, A tour in Wales

Teithwyr Chwilfrydig: Thomas Pennant

Teithwyr Chwilfrydig: Llythyrau Thomas Pennant

Erthygl Wicipedia: Thomas Pennant

Delwedduau

Coflein: DOWNING HALL, WHITFORD

Gweithiau

Thomas Pennant, *History of quadrupeds* (London 1781), Vol.I Div.I; Div.II Sect. I-II; Div.II Sect.III

Thomas Pennant, *Indian zoology* (London 1790)

Thomas Pennant, *Some account of London* (London 1791), Vol.I; Vol.II

Thomas Pennant, *Outlines of the Globe* (Llundain 1798-1800), Vol.I; Vol.II; Vol.III

Thomas Pennant, *A tour from Downing to Alston-Moor* (Oriental Press 1801)

Thomas Pennant, *A tour from Alston-Moor to Harrowgate, and Brimham Crags*(London 1804)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 7426596

Wikidata: Q545123

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnod](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Davies, E., (1953). PENNANT, THOMAS (1726 - 1798), naturiaethwr, hynafiaethydd, teithiwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 13 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PENN-THO-1726>

Copiar i'r clipboard

Preifatrwydd a Chwcius
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nosbarwr
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government